

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Dydd Llun 22 Mehefin 2020, 12-1pm
Telegynhadledd



<p><u>Yn Bresennol</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Paul Orders Sarah McGill Fiona Kinghorn Keith Meredith Hannah Williams Wendy Gunney Abigail Harris Michael Evans Ebed Akotia</p> <p>Ymddiheuriadau: Jo Salway Len Richards Huw Jakeway Sheila Hendrickson-Brown Mark Brace</p> <p>Hefyd yn bresennol: Gareth Newell Claire Marchant Sian Sanders Graham Robb Nathan Swain Clive Bailey Anne Wei</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP CaF) Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) Prif Uwch-arolygydd Dros Dro, Heddlu De Cymru Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP Caerdydd a'r Fro) Pennaeth Gweithrediadau De Cymru Canolog, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Rheolwr Canolfan Wirfoddol C3SC</p> <p>Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Swyddog Tân, GTADC Prif Swyddog Gweithredol, C3SC Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru</p> <p>Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, CC Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu, CC Cadeirydd Annibynnol, Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF</p>
--	--

Rhif	Eitem Agenda	
1 / 2	<p>Croeso a Chyflwyniadau Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 29 Mai 2020. Nodwyd bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.</p>	
3.	<p>Ailgychwyn ac Adfer</p> <p>Rhoddodd aelodau'r Bwrdd amlinelliad o gynlluniau gweithredol eu sefydliad ar gyfer llacio ymhellach y cyfyngiadau cloi. Tynnwyd sylw at y ffaith bod ailagor canol y ddinas wedi gofyn am lawer o gynllunio gofalus, gyda ffyrdd mawr ar gau i gerbydau.</p> <p>Cadarnhawyd y bydd gwasanaethau'n cael eu hailddarparu i ffwrdd o ysbyty Calon y Ddraig gyda'r bwriad o sicrhau bod y stadiwm ar gael ar gyfer digwyddiadau o fis Hydref 2020. Bydd newidiadau i'r ddarpariaeth yn cael eu cyfleu gyda phartneriaid.</p> <p>Cafwyd trafodaeth hefyd ar system brysbennu ffôn yn gyntaf brys a gofal sylfaenol hybrid sy'n cael ei hystyried i gefnogi pobl sydd angen gofal brys i alluogi cadw pellter cymdeithasol wrth i lefelau presenoldeb Damweiniau ac Achosion Brys cyn Covid ddychwelyd.</p> <p>CAMAU GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gadarnhau bod GTADC wedi cael gwybod am newid statws Ysbyty Calon y Ddraig. • Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i rannu datganiad Chwarter 2 gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn Cynllun Darparu Gwasanaethau 2020/21. <p>Cododd CS3C faterion yn ymwneud â gwasanaethau cyfieithu. Cyngor a CS3C i gyfarfod i ddatrys y materion hyn.</p> <p>Cadarnhaodd CNC fod pob maes parcio coedwig yng Nghaerdydd a'r Fro bellach ar agor.</p>	<p>BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>C3SC</p>
4.	<p>Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid</p> <p>Rhoddodd Graham Robb, Cadeirydd Annibynnol, Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd, drosolwg o Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-2022, a fydd yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf.</p> <p>Elfen allweddol i'r strategaeth yw cynnwys pobl ifanc er mwyn deall eu profiad o dderbyn gwasanaethau.</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>CYTUNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> • BGC Caerdydd i gymeradwyo cyhoeddi Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd 2020-2022 • BGC Caerdydd i graffu a herio ymhen 12 mis 	Ysgrifenyddiaeth
5.	<p>Unrhyw fater arall</p> <p><i>Diweddariad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol</i></p> <p>Materion a nodwyd gan BGC Caerdydd</p> <p><i>Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd</i></p> <p>CYTUNWYD: Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd i'w ohirio tan fis Medi 2020</p> <p><i>Mae Bywydau Du o Bwys</i></p> <p>Tasglu Mae Bywydau Du o Bwys y Cyngor i'w lansio ym mis Gorffennaf 2020 C3SC i gysylltu ag Arweinydd y Cyngor i drafod cynnig.</p>	Ysgrifenyddiaeth C3SC
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <p>BGC Caerdydd - 21 Gorffennaf 2020</p>	